



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Llywodraeth Cymru

# Galwad am dystiolaeth: Rhwydo o'r lan yng Nghymru

**Dyddiad cyhoeddi:** 20 Ionawr 2025

**Camau i'w cymryd:** Ymatebion erbyn 28 Chwefror 2025

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.

This document is also available in English.

## Trosolwg

Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio gwybodaeth am rwydo o'r lan yng Nghymru. Bydd y data a gesglir drwy'r alwad hon am dystiolaeth yn cael ei ddefnyddio i benderfynu a oes angen mesurau rhanbarthol neu genedlaethol ychwanegol i amddiffyn pysgod mudol rhag cael eu sgilddal gan rwydi a ddefnyddir o'r lan yng Nghymru.

## Sut i ymateb

Gellir cyflwyno ymatebion drwy e-bost, y post neu ar ffurflen e-bost ar wefan Llywodraeth Cymru yn:

<https://ymateb.gov.wales/s/T3YAI5/?lang=1001398>

Dylid anfon ymatebion drwy e-bost/post i'r cyfeiriad isod, i gyrraedd erbyn 28 Chwefror 2025 fan bellaf. Gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi 'Galwad am dystiolaeth: Rhwydo o'r lan yng Nghymru' yn y blwch pwnc.

Drwy e-bost: [Pysgodfeydd@llyw.cymru](mailto:Pysgodfeydd@llyw.cymru)

Post:

Galwad am Dystiolaeth: Rhwydo o'r lan yng Nghymru:  
Yr Is-adran Pysgodfeydd  
Swyddfeydd Llywodraeth Cymru  
Rhodfa Padarn  
Llanbadarn Fawr  
Aberystwyth  
SY23 3UR.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

**Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**

## Manylion cyswllt

Rhagor o wybodaeth:

Galwad am Dystiolaeth: Rhwydo o'r lan yng Nghymru:  
Yr Is-adran Pysgodfeydd  
Swyddfeydd Llywodraeth Cymru  
Rhodfa Padarn  
Llanbadarn Fawr  
Aberystwyth  
SY23 3UR.

Cyfeiriad e-bost: [Pysgodfeydd@llyw.cymru](mailto:Pysgodfeydd@llyw.cymru)

Ffôn: 0300 0604400

**Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.**

## **Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data a Deddf Diogelu Data 2018**

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a roddwch fel rhan o'ch ymateb i'r alwad am dystiolaeth. Mae Gweinidogion Cymru [a'r Cwnsler Cyffredinol i Lywodraeth Cymru] hefyd yn 'awdurdod cymwys' at ddibenion gorfodi'r gyfraith fel y'u diffinnir yn adran 30 o'r Ddeddf Diogelu Data.

Fel rheol, bydd Llywodraeth Cymru yn prosesu data sy'n gysylltiedig â'r alwad hon am dystiolaeth at ddau ddiben bras, sef 'dibenion cyffredinol' a 'dibenion gorfodi'r gyfraith'. Bydd y dibenion cyffredinol yn cynnwys pan fo gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y maent yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hwn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch sut y maent yn arfer eu swyddogaethau cyhoeddus ac yn cyflawni eu tasg gyhoeddus. Yn benodol, bydd y data a gesglir drwy'r alwad am dystiolaeth hon yn cael ei ddefnyddio i benderfynu a oes angen mesurau rhanbarthol neu genedlaethol ychwanegol i amddiffyn pysgod mudol rhag cael eu sgil-ddal gan rwydi a ddefnyddir o'r lan yng Nghymru, fel y'u disgrifir yn yr alwad hon am dystiolaeth. Bydd unrhyw ymatebion a anfonir gennych yn cael eu gweld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n ymdrin â'r materion y mae'r alwad hon am dystiolaeth yn ymwneud â nhw, neu wrth drefnu ymgynghoriadau cynllunio yn y dyfodol. Os bydd Llywodraeth Cymru am ddadansoddi'r ymatebion ymhellach, efallai y bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud gan drydydd parti achrededig (er enghraifft, sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori). Dim ond o dan contract y caiff unrhyw waith o'r fath ei wneud. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu data personol a'i gadw'n ddiogel. Pan fydd Llywodraeth Cymru o'r farn y gallai data personol a roddwyd gynnwys tystiolaeth bod trosedd wedi'i chyflawni, gall Llywodraeth Cymru rannu'r data personol hwnnw â'r awdurdod gorfodi perthnasol, lle nad Gweinidogion Cymru neu'r Cwnsler Cyffredinol eu hunain yw'r awdurdod gorfodi.

Bydd dibenion gorfodi'r gyfraith yn cynnwys pan fo gan Weinidogion Cymru a'r rhai sy'n gweithredu ar eu rhan neu'r cwnsler Cyffredinol i Lywodraeth Cymru bwerau statudol i atal, canfod, erlyn neu ymchwilio i droseddau. Byddai Llywodraeth Cymru yn prosesu eich data personol at ddibenion gorfodi'r gyfraith pe bai'r wybodaeth a roddwyd gennych yn disgrifio trosedd a allai fod wedi digwydd neu drosedd honedig sy'n destun ymchwiliad lle mai Gweinidogion Cymru neu'r Cwnsler Cyffredinol yw'r awdurdod gorfodi.

Er mwyn dangos bod yr alwad am dystiolaeth wedi'i chynnal mewn modd priodol, mae'n bosibl y bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych am i'ch enw neu'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, sicrhewch eich bod yn ticio'r blwch ar waelod adran gwestiynau'r alwad hon am dystiolaeth pan fyddwch yn anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn eu dileu cyn cyhoeddi.

Dylech fod yn ymwybodol hefyd o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r alwad am dystiolaeth, bydd yr adroddiadau cyhoeddedig hyn yn cael eu cadw am gyfnod amhenodol at ddibenion ymchwil wyddonol neu hanesyddol. Fel arall, ni fydd unrhyw ddata mae Llywodraeth Cymru yn ei

gadw amdanoch yn cael ei gadw am fwy na thair blynedd.

## Eich hawliau

O dan ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych nifer o hawliau gwybodaeth: Mae'r hawliau o dan y Ddeddf Diogelu Data a GDPR y DU yn debyg ond nid yn union yr un fath.

O dan GDPR y DU, mae eich hawliau'n cynnwys yr hawl i wneud y canlynol:

- cael gwybod am y data personol a gedwir amdanoch;
- gweld data personol a gedwir amdanoch chi (mynediad at ddata gan y testun);
- cael gwybod am sut a pham y defnyddir eich data;
- gofyn i'ch data gael ei gywiro, ei ddileu neu ei gyfyngu;
- gwrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu data;
- cludadwyedd eich data;
- peidio â bod yn destun penderfyniad sy'n seiliedig ar brosesu awtomataidd yn unig;
- Cyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO), sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

O dan Ran 3, Pennod 3 o'r Ddeddf Diogelu Data mae eich hawliau'n cynnwys yr hawl i wneud y canlynol:

- cael gwybod am y data amdanoch sy'n cael ei gasglu a'i ddefnyddio;
- gweld eich data personol;
- gofyn inni gywiro gwallau yn y data hwnnw (mewn rhai amgylchiadau);
- gofyn i'ch data gael ei 'ddileu' (o dan rai amgylchiadau);
- peidio â bod yn destun penderfyniadau awtomataidd.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y ffordd mae'n cael ei defnyddio, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
CAERDYDD  
CF10 3NQ

Manylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd  
Gwybodaeth yw:

Wycliffe House  
Water Lane  
Wilmslow  
Cheshire  
SK9 5AF.

Ffôn: 01625 545 745 or  
0303 123 1113  
Gwefan: <https://ico.org.uk>

e-bost: [SwyddogDiogeluData@llyw.cymru](mailto:SwyddogDiogeluData@llyw.cymru)

## Adran I – Cyflwyniad

Cyhoeddwyd Cynllun Rheoli Pysgodfeydd (FMP) Draenogiaid Môr ar gyfer dyfroedd Cymru a Lloegr ym mis Rhagfyr 2023. Datblygwyd y cynllun ar y cyd â Llywodraeth y DU ac mae'n cydymffurfio â gofynion Deddf Pysgodfeydd 2020 a Chyd-ddatganiad Pysgodfeydd (JFS) 2022.

Nod Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Draenogiaid Môr yw sicrhau bod stociau o ddraenogiaid môr yn cael eu rheoli mewn modd effeithiol yn nyfroedd Cymru a Lloegr dros gyfnod o chwe blynedd. Nododd y Cynllun naw nod, ac mae gan bob un ohonynt gamau cysylltiedig sy'n canolbwyntio ar dystiolaeth ddomestig a blaenoriaethau rheoli.

Sefydlwyd Grŵp Cyngori Draenogiaid Môr Cymru (WSBAG) ym mis Ionawr 2024 i roi cyngor i swyddogion a'r Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig ar flaenoriaethu a gweithredu camau gweithredu Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd yng Nghymru. Mae'r Grŵp yn cynnwys amrediad amrywiol o randdeiliaid sydd â diddordeb mewn pysgodfeydd draenogiaid.

Mae Nod 8.1 o'r Cynllun yn cynnwys ymrwymiad i *'adolygu'r arfer o rwydo o'r lan ac o rwydo yn nŵr bas y glannau i weld a oes angen mesurau gwarchod rhanbarthol neu genedlaethol ychwanegol i osgoi sgil-ddal pysgod mudol'*. Fel rhan o'r ymrwymiad hwn, bu swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Grŵp Cyngori Draenogiaid Môr Cymru i adolygu'r arfer presennol o rwydo o'r lan:

<https://www.llyw.cymru/adolygiad-or-arfer-o-rwydo-ar-y-lan-yng-nghymru>

Pwrpas yr Adolygiad o Rwydo o'r Lan oedd agor trafodaethau am yr angen am amddiffyniadau rhanbarthol neu genedlaethol ychwanegol i atal pysgod mudol rhag cael eu sgil-ddal gan rwydi a ddefnyddir o'r lan yng Nghymru. Roedd y papur yn cynnwys gwybodaeth gefndirol ynghylch pam mae angen adolygiad, disgrifiad o rwydo o'r lan a hanes byr y gweithgaredd hwn a sut y mae wedi cael ei reoleiddio yng Nghymru. I gael rhagor o wybodaeth cyfeiriwch at yr Adolygiad o Rwydo o'r Lan sydd wedi'i gyhoeddi gyda'r ddogfen hon.

Tynnodd yr adolygiad sylw at nifer o broblemau mewn perthynas â'r rheoliadau presennol, gan gynnwys y ffaith bod y rheoliadau'n amrywio rhwng ardaloedd Gogledd a De Cymru ac nad oes modd eu haddasu. Nododd hefyd fod y data sydd ar gael ar gymryd draenogiaid môr a dalfeydd a sgil-ddalfeydd eraill gan rwydi a ddefnyddir o'r lan yn gyfyngedig, a bod angen gwybodaeth gywir er mwyn gwella'r ffordd mae rhwydo o'r lan a physgodfeydd draenogiaid môr yn cael eu rheoli yng Nghymru yn ei chyfanrwydd. Cytunodd Grŵp Cyngori Cymru ar Ddraenogiaid Môr fod yr adolygiad yn amlygu'r angen i gasglu rhagor o wybodaeth a data am weithgareddau rhwydo o'r lan cyn ystyried unrhyw newidiadau i drefniadau rheoli . Awgrymodd y Grŵp Cyngori y byddai galwad am dystiolaeth a system recordio dalfeydd wirfoddol yn ffyrdd priodol o gasglu gwybodaeth o'r fath.

O ganlyniad, mae Llywodraeth Cymru bellach yn cynnal galwad am dystiolaeth i ofyn am wybodaeth gan y rhai sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â rhwydo o'r lan, er mwyn deall yn well y niferoedd sy'n rhwydo o'r lan, pryd maent yn gwneud hynny a pha

mor aml, ble mae'n digwydd, y rhywogaethau sy'n cael eu dal a faint sy'n cael eu dal – boed hynny wedi'u targedu neu mewn sgil-ddalfeydd.

Er y bydd yr alwad am dystiolaeth yn casglu rhywfaint o wybodaeth sydd gan bysgotwyr eisoes, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried rhinwedd cyflwyno cynllun cofnodi dalfeydd gwirfoddol er mwyn casglu data am ddalfeydd yn y dyfodol. Yn gysylltiedig â hyn, er mwyn gwella ein dealltwriaeth, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ystyried comisiynu astudiaethau gwyddonol ar sgil-ddalfeydd a'r hyn sy'n cael ei dafu. Bydd y rhai sy'n ymateb i'r alwad am dystiolaeth yn cael cyfle i gyfrannu at yr astudiaethau hyn os ydynt am wneud hynny.

Nid ymgynghoriad ar gynigion datblygu mo hwn, ond yn hytrach gais cynnar am wybodaeth i helpu'r Llywodraeth Cymru i lunio'i chynigion a'r argymhellion i'w rhoi gerbron Gweinidogion.

Peidiwch â theimlo bod rhaid ateb pob un o'r cwestiynau.

Wrth ateb y cwestiynau, rhowch unrhyw ddata perthnasol, dystiolaeth o ymchwil, deunydd o arolygon, enghreifftiau ymarferol neu brofiadau sy'n ategu eich barn (croeso ichi roi dolenni neu gyfeiriadau at y rhain).

Bydd yr wybodaeth a gesglir yn cael ei defnyddio i ystyried a oes angen mesurau ychwanegol i wella'r ffordd mae rhwydo o'r lan yn cael ei reoleiddio. Bydd unrhyw gynigion dilynol i newid y rheoliadau presennol yn seiliedig ar yr wybodaeth hon yn destun ymgynghoriad cyhoeddus, cyn gwneud unrhyw newidiadau i ddulliau rheoli.

## **Rhan II – Cwestiynau**

Hoffem gasglu gwybodaeth oddi wrth gymaint o bobl sy'n rhwydo o'r lan ag y bo modd am eu gweithgareddau yng Nghymru.

### **Rhowch y ganlynol:**

1. Enw:

2. Cyfeiriad:

3. Cod Post:

4. Cyfeiriad e-bost:

5. Sefydliad (os yw hynny'n berthnasol):

Atebwch y cwestiynau isod gan roi cymaint o fanylion â phosibl, gan gyfeirio at Atodiad 1 i weld gwybodaeth am y rheoliadau cyfredol ar rwydo o'r lan.

Dylai'r atebion fod yn berthnasol i'r cyfnod **2021–2024 yn unig**.

6. Nodwch os ydych yn rhwydo o'r lan eich hun neu wedi gweld y gweithgaredd hwn yn digwydd yng Nghymru:

Rhwydo o'r lan yn fasnachol:

Unig fasnachwr

Partner

Cwmni cyfyngedig

7. Oes gennych gwch pysgota masnachol?

Oes

Nac oes

8. Rhwydo o'r lan at ddibenion hamdden

Oes

Nac oes

9. Wedi gweld rhwydo o'r lan (atebwch gwestiynau 24 a 25)

Oes

Nac oes

10. Yn ystod pa fisoedd y buoch yn pysgota â rhwyd o'r lan yn y cyfnod 2021–2024?

11. Ble buoch yn pysgota â rhwyd o'r lan bob blwyddyn yn y cyfnod 2021–2024 (byddwch mor benodol â phosibl)?

12. Sawl diwrnod y buoch yn pysgota â rhwyd o'r lan bob blwyddyn yn y cyfnod 2021–2024?

13. Beth oedd eich rhywogaeth darged wrth bysgota â rhwyd o'r lan yn y cyfnod 2021–2024?

14. Faint o ddraenogiaid môr y gwnaethoch gymryd wrth bysgota â rhwyd o'r lan bob blwyddyn yn y cyfnod 2021–2024 (cilogramau)?

15. Pa rywogaethau eraill y gwnaethoch eu dal wrth bysgota â rhwyd o'r lan yn y cyfnod 2021–2024 gan gynnwys pysgod, mamaliaid ac adar?

16. Beth oedd hyd y rhwydi (metrau) a ddefnyddiwyd?



17. Beth oedd maint y rhwyll (milimetrau) a ddefnyddiwyd?

18. Faint o rwydi gafodd eu defnyddio / eu gosod ar unrhyw adeg?

19. Sut y gwnaethoch ddefnyddio'r rhwydi o'r lan (dull/trefn)?

20. A wnaethoch gofnodi eich gweithgareddau rhwydo o'r lan (pryd, ble, dalfeydd) yn y cyfnod 2021–2024?

Do

Naddo

21. Os felly, a fydddech yn fodlon rhannu eich cofnodion â ni?

Byddwn

Na fyddwn

22. Yn y dyfodol, a fydddech yn fodlon rhannu data am ddychwelyd dalfeydd â ni yn wirfoddol mewn perthynas â gweithgareddau rhwydo o'r lan, h.y. drwy system recordio dalfeydd wirfoddol?

Byddwn

Na fyddwn

23. A fydddech yn fodlon cymryd rhan mewn astudiaeth wyddonol ar sgil-ddalfeydd rhwydo o'r lan?

Byddwn

Na fyddwn

24. Ble a phryd rydych wedi gweld gweithgarwch rhwydo o'r lan yng Nghymru wrth bysgota neu fel arsylwr yn y cyfnod 2021–2024 (byddwch mor benodol â phosibl)?

25. Ar gyfer pob un o'r lleoliadau hyn a nodir yng nghwestiwn 24, beth yw'r nifer uchaf o bobl rydych wedi eu gweld yn pysgota â rhwyd o'r lan ar unrhyw un adeg?

26. A ydych yn cydsynio i Is-adran Pysgodfeydd Llywodraeth Cymru ddefnyddio eich manylion i gysylltu â chi am ragor o wybodaeth/trafodaethau am y mater hwn?

Cewch dynnu eich cydsyniad yn ôl ar unrhyw adeg. Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y broses hon, neu os hoffech dynnu eich cydsyniad yn ôl, cysylltwch â: [Pysgodfeydd@llyw.cymru](mailto:Pysgodfeydd@llyw.cymru)

Ydw

Nac ydw

27. Mae'n bosibl y caiff ymatebion i'r cais hwn am dystiolaeth eu cyhoeddi, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad.

Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb.

**Os nad ydych eisiau i'ch enw na'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi ticiwch yma.**

**Byddwn wedyn yn eu cuddio cyn cyhoeddi.**

## Atodiad 1: Rheoliadau rhwydo o'r lan yng Nghymru

Ar hyn o bryd mae defnyddio rhwydi o'r lan yn cael ei reoleiddio gan nifer o ddarpariaethau mewn is-ddeddfau ac offerynnau statudol. Mae'r darpariaethau hyn yn berthnasol mewn gwahanol ardaloedd ac yn rheoleiddio defnyddio rhwydi o'r lan at wahanol ddibenion.

### Is-ddeddfau

Mae Is-ddeddfau Pwyllgor Pysgodfeydd Môr Gogledd-orllewin Lloegr a Gogledd Cymru (NWNWSFC) a fu, Pwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru (SWSFC) a fu ac Asiantaeth yr Amgylchedd a fu wedi bod mewn grym ers 1 Ebrill 2010 fel pe baent wedi'u gwneud gan Weinidogion Cymru mewn offeryn statudol yn rhinwedd erthygl 13(1), (3) a (4) ac Atodlenni 3, 4 a 5 i Orchymyn Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (Cychwyn Rhif 1, Darpariaethau Canlyniadol, Trosiannol ac Arbedion) (Cymru a Lloegr) 2010.

Mae'r rheoliadau cyfredol ar gyfer pysgota am ddraenogiaid môr yng Nghymru a Lloegr yn cynnwys rheoliadau cymhathedig sy'n deillio o'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin (CFP):

Mae Is-ddeddfau'r SWSFC a fu yn berthnasol yn yr ardal a ddisgrifir yn yr Is-ddeddfau hynny. Mae Is-ddeddf 30 yn gwahardd gosod a defnyddio unrhyw rwydi gosod yn yr ardal ac ar yr adegau a restrir yn yr Is-ddeddf. Mae Is-ddeddf 30 yn rhoi pwerau hefyd i awdurdodi gosod a defnyddio rhwydi gosod i ddal pysgod môr at ddibenion gwyddonol neu stocio neu fridio.

Mae is-ddeddfau'r NWNWSFC a fu yn berthnasol yn yr ardal a ddisgrifir yn Is-ddeddf 24(a). Mae Is-ddeddf 24 yn cyfyngu defnyddio peiriannau gosod at ddibenion adran 37 o Ddeddf Eogiaid 1986. Gwaherddir gosod a defnyddio peiriant gosod yn yr ardaloedd a ddisgrifir ac am y cyfnodau a nodir yn yr Is-ddeddf.

Mae is-ddeddfau'r SFCau a fu hefyd yn cynnwys cyfyngiadau sy'n ymwneud â natur a'r defnydd o rwydi o'r lan, gan gynnwys hyd rhwyd, maint rhwyllau, pa mor aml y mae'n rhaid eu clirio, a faint o rwydi y caiff unigolyn eu defnyddio ar yr un pryd (gweler Tabl 1 ac Is-ddeddfau 30, 32 a 33 o'r SWSFC ac Is-ddeddfau 7, 8, 11 a 24 o'r NWNWSFC). Maent yn nodi hefyd nifer o feysydd lle mae cyfyngiadau eraill, megis cyfnodau caeedig yn ystod y tymor silio. Mae hyn wedi arwain at gau llawer o bysgodfeydd gan dargedu lleoliadau allweddol mewn aberoedd afon ar hyd arfordir Cymru (Ffigur 1) lle y gwyddys bod pysgod mudol yn bresennol sy'n debygol o gael eu dal mewn rhwydi a ddefnyddir o'r lan.

Ategir Is-ddeddfau'r SFCau a fu gan gyfyngiadau pellach o ran lleoliad a chyfnodau caeedig, y tu hwnt i ffiniau'r SFC, drwy Is-ddeddf 3 EA Cymru (De) ac Is-ddeddf 5 EA Cymru (Gogledd).

Mae manylion llawn yr is-ddeddfau ar gael yn y dolenni canlynol:

[Deddfwriaeth Pysgodfeydd y Glannau – Gogledd Cymru](#)

[Deddfwriaeth Pysgodfeydd y Glannau – De Cymru](#)

**Tabl 1:** Mae'r tabl hwn yn disgrifio'r Is-ddeddfau a grewyd gan y Pwyllgorau Pysgodfeydd Môr y De a'r Gogledd a fu ac Asiantaeth yr Amgylchedd a fu.

| Rheoliad                                | Is-ddeddfau'r De   | Is-ddeddfau'r Gogledd   |
|---|--|---|
| Lleoliad y rhwyd                        | Rhaid clirio pysgod o'r rhwyd o leiaf unwaith bob dau lanw os ydych yn ei gosod o dan farc y llanw isel, a bob llanw isel os caiff ei gosod yn y parth rhwng llanw isel a llanw uchel. | Rhaid defnyddio'r rhwydi fel na chaiff salmonidau eu dal. Os delir salmonidau, dylid ail-osod y rhwyd gosod fel na all hyn ddigwydd eto.  |
| Hyd y rhwyd                             | Dim mwy na 200m  | Dim mwy na 275m   |
| Uchder y rhwyd                          | Ni fydd gan unrhyw rwyd bostyn fwy na 1.25 metr uwchlaw gwely'r môr.   | Dim   |
| Pellter rhwng rhwydi eraill (lleiafswm) | 200m   | 137.5m  |
| Maint y rhwyll                          | Pan fydd y rhwyll yn cael ei hestyn yn groeslinol ar hyd y rhwyd bydd mesurydd gwastad 100mm o led a 2mm o drwch yn pasio drwyddo'n hawdd heb bwysau pan fydd y rhwyd yn wlyb.         | Pan fydd y rhwyll yn cael ei hestyn yn groeslinol ar hyd y rhwyd, bydd mesurydd gwastad 89mm o led a 2mm o drwch yn gallu pasio drwyddo'n hawdd a chyda digon o nerth braich. Rhwydi bach: 65mm |
| Y nifer uchaf o rwydi a ganiateir       | Dim mwy nag un rhwyd ar unrhyw un adeg, a rhaid i'r un person sy'n pysgota â hi ac yn ei gwasanaethu ei gosod oni bai ei fod wedi hysbysu'r Pwyllgor cyn gwasanaethu'r rhwyd.          | Dim   |
| Cyfyngiadau ar ddŵr croyw               | Ni ddylid gosod rhwyd o fewn 200m i unrhyw ffynhonnell dŵr croyw.  | Dim   |

### Cyfraith Cymathedig yr UE

Mae'r rheoliadau presennol ar gyfer pysgota am ddraenogiaid môr yng Nghymru a Lloegr yn cynnwys rheoliadau cymathedig sy'n deillio o'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin (CFP):

- Rheoliad cymathedig (EU) 2019/1241 y Senedd Ewropeaidd a'r Cyngor dyddiedig 20 Mehefin 2019 ar warchod adnoddau pysgodfeydd a diogelu ecosystemau morol drwy fesurau technegol ('Rheoliad cymathedig (EU) 2019/1241')
- Rheoliad cymathedig y Cyngor (EU) 2020/123 dyddiedig 27 Ionawr 2020 gan bennu ar gyfer 2020 y cyfleoedd pysgota am stociau pysgod penodol a grwpiau penodol o stociau pysgod, yn nyfroedd yr Undeb ac ar gyfer cychod

pysgota'r Undeb mewn rhai dyfroedd y tu allan i'r Undeb ('Rheoliad cymhathedig y Cyngor (EU) 2020/123')

Ers Brexit, mae'r rheoliadau hyn wedi cael eu cadw a'u haddasu i gyfraith y DU ac, mewn perthynas â physgota am ddraenogiaid môr, maent wedi cael eu diwygio gan yr offerynnau canlynol:

- Rheoliadau Pysgodfeydd Môr (Diwygio etc.) 2021
- Rheoliadau Pysgodfeydd Môr (Diwygio etc.) (Rhif 2) 2021
- Rheoliadau Pysgodfeydd Môr (Diwygio) 2023

### **Pysgota masnachol am ddraenogiaid môr â rhwydi**

Mae Erthygl 10(1) o Reoliad cymhathedig (UE) Rhif 2020/123 yn gwahardd cychod pysgota'r DU a physgodfeydd masnachol o'r lan rhag pysgota am ddraenogiaid môr yn is-adrannau 4b a 4c ICES ac yn is-ardal 7 ICES. Mae eithriad ar gyfer sgil-dalfeydd mewn hyd at 50 o rwydi drysu o'r lan na chawsant eu gosod o gwch. At hynny, nid oes terfyn wedi'i bennu ar gyfer maint y sgil-ddalfa y caniateir ei dal mewn rhwydi o'r lan.

Y Maint Cyfeirio Cadwraethol Lleiaf o ddraenogiaid môr y caniateir ei gadw yw 42cm.

### **Pysgota hamdden am ddraenogiaid môr**

O dan y rheoliadau cyfredol ar gyfer pysgota hamdden am ddraenogiaid môr, dim ond fel a ddarperir gan Erthygl 10(5) o Reoliad cymhathedig (UE) 2020/123 y gellir cymryd draenogiaid môr. Mae Erthygl 10(5) yn datgan bod y darpariaethau canlynol yn gymwys ym mharth Cymru mewn pysgodfeydd hamdden, gan gynnwys o'r lan:

- a) Yn ystod y cyfnod rhwng 1 Chwefror a diwedd Mawrth ym mhob blwyddyn galendr, ni chaniateir pysgota am ddraenogiaid môr ac eithrio dal â gwialen neu â lein llaw a'u rhyddhau.
- b) Yn ystod mis Ionawr ac yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill a diwedd Rhagfyr ym mhob blwyddyn galendr, ni chaniateir dal a chadw mwy na dau ddraenog môr y dydd fesul pysgotwr. Y draenog môr lleiaf y caniateir ei gadw yw 42cm.

Nid yw pwynt (b) o'r paragraff cyntaf uchod yn gymwys i rwydi hamdden gosod. Ni chaniateir eu defnyddio nhw ar unrhyw adeg i ddal na chadw draenogiaid môr.

### **Ardaloedd Silio Draenogiaid Môr (BNAau)**

Mae Gorchymyn Draenogiaid Môr (Ardaloedd Penodedig) (Gwahardd Pysgota) 1990 yn gwahardd pysgota am ddraenogiaid môr gan unrhyw gwch pysgota yn yr ardaloedd yng Nghymru a Lloegr a ddisgrifir yn yr atodlen yn ystod y cyfnodau a bennir mewn perthynas â phob ardal. Mae Gorchymyn 1990 yn dynodi 12 BNA yng Nghymru (Ffigur 1) a rhestrir y cyfnodau cau ar gyfer pob un isod:

| Ardal Silio Draenogiaid Môr    | Cyfnod cau                    |
|--------------------------------|-------------------------------|
| Pwerdy Aberddawan              | Drwy'r flwyddyn               |
| Cilfach Tywyn                  | Rhwyng 30 Ebrill a 1 Tachwedd |
| Aberoedd Taf, Tywi, Gwendraeth |                               |
| Aberdaugleddau                 |                               |
| Aber Teifi                     |                               |
| Afon Dyfi                      |                               |
| Afon Mawddach                  |                               |
| Aber Dwryd/Glaslyn             |                               |
| Aber Conwy                     |                               |
| Aber Dyfrdwy                   | Rhwng 31 Mai a 1 Hydref.      |

Mae'r cyfyngiadau gofodol hyn yn berthnasol i bysgota o gwch yn unig. Ac eithrio'r Dyfrdwy, gellir defnyddio rhwydi o'r lan o hyd mewn BNAau yn ystod y cyfnodau caeedig. Ar ben hynny, mae rhannau o BNAau pwerdy Aberddawan a Chonwy nad ydynt yn dod o dan y cyfyngiadau ar rwydi gosod .

Yn 1999, newidiwyd y prif Orchymyn i wahardd defnyddio llymŕiaid fel abwyd wrth bysgota am ddraenogiaid môr mewn BNAau.

**Ffigur 1:** Map o'r ardaloedd gydag Is-ddeddfau sy'n cyfyngu ar ddefnyddio rhwydi ac o ardaloedd silio draenogiaid môr (BNAau).

